CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
3 Tachwedd 2021, Trwy Zoom 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng. D. Idriswyn Roberts (Cadeirydd), , D Gwyn, Ll. Roberts, A Mummery, M. Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. S. Hughes. a R. Williams (Cyngor Sir)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**Ymddiswyddiad -** Gyda thristwch derbyniwyd lythyr o ymdddiswyddiad gan Elfed Williams. Cytubwyd yn unfrydol i'r Cadeirydd gynnal sgwrs gyda EW I ofyn buasaui'n ail feddwl ei ymddiswyddiad a chymeryd cyfnod o seibiant o waith y Cyngor Cymuned. Oherwydd etholiad ym mis Mai 2022 ni fyddai'r Cyngor yn llenwi'r sedd wag.
4.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06/10/21. Diolchwyd i AM am gogofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb y Clerc. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. DG yn cynnig a LlR yn eilio.
5.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
5.1	**Sbwriel ar y lôn gefn o Star I Gaerwen** - DG wedi gwneud cyswllt gyda'r adran gwastraff. Nodwyd os bydd problem eto dylid codi ffôn i'r adran a bydd gweithwyr glanhau ffyrdd yn dod draw.
5.2	**ELUSENDAI / TAI ROGERS LEWIS** Adroddodd DIR fod y bwrdd wedi cyfarfod ddwywaith. Gweithredu ar newid y cymal dros 50 oed. OE wedi creu cynllun i newid y tai i 3 annedd 2 ystafell wely. Y bwrdd i gyfarfod Keith Williams Swyddog Adeiladau Rhestredig ar y safle.
5.3	**MAES CHWARAE STAR** Dau gynllun wedi'u prisio sef un pren ac un plastig. Clerc I wneud cais am arian loteri i ddatblygu'r ardal chwarae. Hefyd i wneud cais am goed ffrwyth a phlanhigion trwy Cadw Cymru'n Daclus.
5.4	**GOR YRRU**

	Angen ail drefnu cyfarfod gyda swyddogion adran priffyrdd y Cyngor Sir/Heddlu. Clerc I anfon at Huw Percy, Pennaeth yr adran.
5.5	**Gwasanaeth Band Eang** Diddordeb gan bobl Penmynydd I fod yn rhan o'r cynllun I l wella gwasanaeth band eang yng nghefn gwlad. DIR am fwrw ymlaen gyda'r trafodaethau/gwaith ymchwil.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
6.1	**CAIS CYNLLUNIO** Dalar Deg - dim sylw.
7.0	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**TALIADAU** Cyflog Clerc
8.0	**MATERION ERAILL**
8.1	**CYTUNDEB TORRI GWAIR** Derbyniwyd bris gan Norman Jones am 6 torriad yn ystod 2022. Cytunwyd i'r Clerc gael dau bris arall cyn gwneud penderfyniad.
8.2	**DIWEDDARIAD RHENT Y NEUADD** Derbyniwyd fil o £3000 gan y Cyngor Sir am 2017 - 2018. Clerc l wirio dyddiad arwyddwyd y gytundeb a'r taliadau ers 2017.
8.3	**AWDIT** Clerc i hysbysebu'r datganiad yn esbonio fod y cyfrifon yn hwyr yn cael eu cyflawni.
8.4	**YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL** Cais gan PCSO Daisy Deveraux am gyfarfod I drafod ymddygiad gwrth gymdeithasol yn Star. Y Clerc I drefnu cyfarfod DD yn Star.
9.0	**CYFARFODYDD I'R DYFODOL** Oherwydd cynnydd yn y niferoedd achosion Cofid 19 penderfynwyd parhau gyda chyfarfodydd rhithiol ar hyn o bryd. Adolygu'r sefyllfa'n fisol.
9.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Llofnod **Cadeirydd** **1.12.21**